Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Elidyr

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg

## a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Choleg Elidyr

Coleg arbenigol annibynnol preswyl i bobl ifanc rhwng 18 a 30 oed yw Coleg Elidyr. Caiff ei weinyddu gan Elidyr Communities Trust, sef cwmni elusennol. Mae'r coleg wedi'i leoli mewn lleoliad gwledig ger Llanymddyfri ac mae ganddo ystâd sy'n ymestyn i 180 erw ac yn cynnwys gardd gegin, tir ffermio a choetiroedd.

Ar hyn o bryd, mae 20 o ddysgwyr yn y coleg, y mae pob un ohonynt yn byw yn un o'r saith tŷ preswyl ar y safle. Mae gan ddysgwyr yn y coleg ystod o anawsterau dysgu ac anableddau. Daw tua hanner y dysgwyr o Gymru.

Bu'r pennaeth addysg a'r dirprwy bennaeth addysg cyfredol yn y swydd ers ychydig dros flwyddyn.

Ni ddylai barnau'r arolygwyr yn ystod yr arolygiad cyfyngedig hwn effeithio ar ganfyddiadau unrhyw arolygiad dan Adran 77 yn y dyfodol.

# Prif ganfyddiadau

## Cryfderau

Ers yr arolygiad craidd yn 2019, mae'r coleg wedi wynebu heriau sylweddol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Yn ystod y cyfnod hwn, cydweithiodd staff â'i gilydd yn hyblyg i sicrhau bod y coleg yn aros ar agor, gan roi blaenoriaeth i gefnogi anghenion lles dysgwyr yn effeithiol. Ar lefel strategol, defnyddiodd uwch arweinwyr y cyfnod hwn yn llwyddiannus i fwrw ymlaen â rhaglen prosiectau cyfalaf y coleg i wella ansawdd y llety a'r amgylchedd. Er enghraifft, mae'r prosiect ar gyfer adeiladu 'hwb addysg' dynodedig y coleg bron â'i gwblhau erbyn hyn ac mae'r gwaith o adeiladu'r ganolfan crefftau i ddysgwyr yn mynd rhagddo'n dda. Mae'r datblygiadau mawr hyn yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol mewn helpu sicrhau y caiff dysgwyr eu haddysgu mewn amgylchedd symbylol sy'n bodloni eu hanghenion yn effeithiol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn y coleg yn meithrin perthynas waith gadarnhaol â'u cymheiriaid a'r staff addysgu. Gyda'u cymheiriaid, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos parch sylweddol tuag at ei gilydd ac yn dathlu cyflawniadau gyda'i gilydd yn gadarnhaol. Yn ystod sesiynau, dros amser, mae bron pob un o'r dysgwyr yn meithrin ymddiriedaeth â'r staff addysgu a'r dulliau a ddefnyddiant i gefnogi datblygiad dysgwyr unigol, sy'n eu helpu i reoli eu hymddygiad eu hunain yn llwyddiannus a gwella ansawdd eu gwaith.

Yn ystod y sesiynau a arsylwyd a chraffu ar waith dysgwyr yn ystod yr ymweliad monitro hwn, gwna bron pob un o'r dysgwyr o leiaf gynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol. Dros gyfnod, mae bron pob un o'r dysgwyr yn datblygu eu medrau cyfathrebu ac ymarferol yn arbennig o dda, er enghraifft wrth ddilyn prociau gweledol ar gyfer ryseitiau i goginio pryd o fwyd i swper neu arwyddo neu siarad wrth wneud mainc dderw yn yr ardal gwaith coed.

Mae gan bron pob un o'r staff addysgu berthynas waith gadarnhaol dros ben â'r dysgwyr. Maent yn gwybod beth yw anghenion penodol eu dysgwyr unigol a'r hyn sy'n eu cymell i wneud yn dda. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus i gynllunio'n hyblyg ar gyfer sesiynau ac i herio dysgwyr i gyflawni eu gorau. Mae bron pob un o'r staff addysgu hefyd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu yn sicr i helpu sicrhau y caiff anghenion cyfathrebu dysgwyr eu bodloni, er enghraifft drwy ddefnyddio arwyddion a chymorth symbolau yn gyson.

## Meysydd i'w datblygu

Mae uwch arweinwyr wedi diwygio trefniadau'r coleg ar gyfer sicrhau ansawdd addysgu a dysgu. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw prosesau sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant yn darparu ffocws digon cyson ar effaith ansawdd yr addysgu ar safonau a chynnydd dysgwyr a'u hagweddau at ddysgu bob tro.

## Argymhellion

**Dylai'r coleg:**

A1 Sicrhau bod trefniadau sicrhau ansawdd y coleg yn canolbwyntio'n addas ar effaith addysgu ar safonau a chynnydd dysgwyr a'u hagweddau at ddysgu

## Cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o ymweliad neu adroddiad arolygu blaenorol

### A1. Sicrhau bod trefniadau'r coleg ar gyfer sicrhau ansawdd addysgu a dysgu yn canolbwyntio'n briodol ar gryfderau a meysydd i'w datblygu

Yn ystod y pandemig COVID-19, cyflwynodd y coleg drefniadau i gyfyngu ar symudiad staff ar draws y safle, fel sefydlu 'swigod' dysgwyr a staff i leihau'r risg o haint. Cyflwynodd y cyd-destun hwn her sylweddol i uwch arweinwyr o ran sicrhau ansawdd addysgu a dysgu, yn enwedig trefniadau ar gyfer arsylwi sesiynau. O ganlyniad, mae uwch arweinwyr wedi defnyddio'r flwyddyn academaidd hon i roi blaenoriaeth uwch o lawer i sicrhau bod trefniadau'r coleg ar gyfer sicrhau ansawdd addysgu a dysgu yn canolbwyntio'n briodol ar gryfderau a meysydd i'w datblygu.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022, sefydlwyd grŵp ymgynghori i'r staff addysgu i fireinio a gwella prosesau'r colegau a'r dogfennau ar gyfer arsylwi sesiynau. Mae'r trefniadau diwygiedig hyn yn rhoi pwyslais cryfach o lawer ar staff addysgu yn myfyrio ar eu harfer eu hunain a'i werthuso, nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu, dysgu rhwng cymheiriaid a chynllunio camau gweithredu ar gyfer gwella. Fodd bynnag, gan nad yw cylch cyntaf y trefniadau diwygiedig hyn wedi'i gwblhau'n llawn, mae'n rhy gynnar i farnu'r effaith ar wella ansawdd yr addysgu a dysgu.

Mae uwch arweinwyr yn trafod deilliannau o arsylwi sesiynau yn rheolaidd, gan gynnwys cryfderau a meysydd i'w datblygu, fel rhan o brosesau cynllunio ar gyfer gwella'r coleg. Fodd bynnag, o fewn y prosesau hyn, nid oes ffocws digon cyson ar effaith ansawdd yr addysgu ar safonau a chynnydd dysgwyr a'u hagweddau at ddysgu.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan y coleg ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru).

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: https://www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/08/2022